

No.

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd. J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.C. Bird, B.E. Brooks, C.A. Cave, S.M. Hanks, R. Nugent-Finn, A.C. Parker, S.D. Perkes a L.O. Rowlands.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd J.M. Norman ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio), C. Ireland (Cyngor Dinasyddion Caerdydd a Chynrychiolydd y Fro) a W. Hennessy, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr Gweithgorau Tenantiaid).

459 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

460 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y G. Doyle (Cynrychiolydd y Gweithgor Tenantiaid).

461 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

462 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

463 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST 2021 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid yn ynghylch sefyllfa'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod hwn, gan hysbysu'r Pwyllgor o'r canlynol:

No.

- Rhagwelwyd y byddai'r holl gyllidebau refeniw o dan gylch gwaith y Pwyllgor yn alldro ar y targed; ac eithrio Tai Cronfa'r Cyngor lle na ellid cyflawni targed arbedion teledu cylch cyfyng eleni, oherwydd bod opsiynau ariannu'n dal i gael eu hystyried a'u trafod gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru (CHTh). Byddai unrhyw ddiffyg yn cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn ar gyfer eleni ar gyfer y gwasanaeth hwnnw;
- Roedd cyllid Covid-19 Llywodraeth Cymru (LIC) hefyd wedi cynorthwyo nifer o'r cyllidebau o dan gylch gwaith y Pwyllgor er mwyn iddynt fantoli'r gyllideb y flwyddyn ariannol hon;
- Roedd disgwyl i'r targedau effeithlonrwydd ar gyfer gwasanaethau o dan y Pwyllgor hwn gael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol hon;
- O ran Rhaglen Gyfalaf y Pwyllgor hwn, roedd dwy raglen newydd, ychwanegol i'w nodi:
 - Y Grant Gwella Diogelwch: roedd y Cyngor wedi derbyn grant o £21,450 gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu'r offer perthnasol i alluogi dioddefwyr cam-drin domestig i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain;
 - Thoiledau Ynys y Barri a Cosmeston: darparwyd £10,000 yn ychwanegol o'r ffrwd refeniw briodol er mwyn helpu i ariannu'r cynllun hwn.
- Roedd pedwar cynllun a oedd wedi 'llithro' yn rhannol o'r Rhaglen Gwella Tai am wahanol resymau; cafodd y rhain, yn eu hanfod, eu gohirio a byddai eu cyllidebau (tua £15m gyda'i gilydd) yn cael eu llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn i'r gwaith fynd rhagddo a chael ei gwblhau bryd hynny.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- Mewn ymateb i gwestiwn y Cyngorydd Hanks ynglŷn ag a oedd y gwaith yn nhoiledau Ynys y Barri wedi'i gwblhau, cadarnhaodd y Rheolwr Cymorth Cyllid fod y gwaith wedi'i gwblhau.
- Wrth ateb y cwestiynau a godwyd gan y Cyngorydd Hanks ynglŷn â'r hyn a oedd yn digwydd o ran cynllun Long Meadow Court a Cham 2 Holm View, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu:
 - Yn Long Meadow Court, roedd ystlumod wedi'u gweld yn yr ardal ac felly roedd angen arolwg pellach er mwyn cael y drwydded angenrheidiol. Byddai gwaith yn y lleoliad yn dal i ddechrau'r flwyddyn ariannol hon ond roedd angen rhywfaint o lithriant gan nad oedd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd y cynllun yn ymwneud â gwaith allanol yn bennaf (dros £1m), megis inswleiddio waliau allanol, gwaith toi, ffabrigau allanol a'r amgylchedd y tu allan i'r ganolfan, yn dilyn y gwaith a wnaed yn flaenorol fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC);
 - O ran Cam 2 Holm View, nid oedd y Cyngor wedi caffael y gwaith eto ac roedd yn annhebygol y byddai'r Cyngor ar y safle yn y flwyddyn ariannol hon; o achos hynny y ceir y lithriant cysylltiedig i 2022/23.
- Wrth ymateb i ymholiad y Cyngorydd Aviet ynglŷn ag a oedd y Cyngor yn cael gwerth am arian o'r contract presennol gyda Phen-y-bont ar Ogwr ynghylch teledu cylch cyfyng, ac ymholiad y Cyngorydd Parker ynghylch faint o'r hen gamerâu teledu cylch cyfyng oedd bellach yn gweithio, atebodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu:

No.

- Roedd yn anodd mesur gwerth am arian y system teledu cylch cyfyng bresennol. Fel rhan o'r dull rhanbarthol, roedd teledu cylch cyfyng ar gyfer y Fro wedi'i leoli ac yn cael ei gyrchu o Ben-y-bont ar Ogwr, a oedd yn creu heriau i swyddogion Heddlu'r Fro ac eraill. Hefyd, roedd y system bresennol yn mynd yn hen, ond nid oedd hyn o ganlyniad i'r contract presennol. Roedd y penderfyniad gwreiddiol i weithio gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd o ran maint a gwerth am arian. Byddai'r gost o gynnal y system hon a'r bartneriaeth yn dal i fod yn llawer llai na phe bai'r Fro wedi rhedeg a chynnal ei system teledu cylch cyfyng ei hun. Ar nodyn cadarnhaol, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi cytuno mewn egwyddor i ddarparu cyllid refeniw a monitro teledu cylch cyfyng yn ardal De Cymru, yn amodol ar feini prawf penodol. Er enghraifft, Awdurdodau sy'n defnyddio dull rhanbarthol tuag at deledu cylch cyfyng er mwyn gwneud cais am y cyllid a'r cymorth hwn. Roedd y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd yn ddiweddar er mwyn ystyried y cyfle hwn a'r problemau technolegol cysylltiedig; byddai hyn yn seiliedig ar ddull 'prif ganolfan a lloerennau', lle byddai gennych 'ganolfannau' teledu cylch cyfyng yn rhanbarthol, ond gallai'r Heddlu lleol, gweithwyr y Cyngor a rhanddeiliaid eraill gael gafael ar luniau yn eu hardaloedd eu hunain heb fod angen teithio i un lleoliad canolog er mwyn gwneud hyn. Roedd y trafodaethau ar hyn wedi mynd rhagddynt yn dda, gyda'r gobaith y cyrhaeddir canlyniad cadarnhaol yn y misoedd nesaf.
- Roedd nifer y camerâu teledu cylch cyfyng sy'n gweithio yn cael eu monitro'n gyson er mwyn cynnal y system ac atgyweirio unrhyw rai nad oeddent yn gweithio. Roedd y Cyngor wedi ymrwymo swm cyfalaf (dros £300k) o fewn ei Raglen Gyfalaf er mwyn disodli ei stoc o gamerâu sy'n heneiddio; ond roedd hyn ar y sail y byddai eraill yn ymgymryd â'r ymrwymiad refeniw ar gyfer y monitro. Fel rhan o hyn, roedd y Cyngor wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau dros y 12-16 mis diwethaf. Roedd y Cyngor hefyd wedi bod yn prynu camerâu y gellir eu haildefnyddio ar gyfer manau lle ceir achosion o oryrru yn gyson nad oeddent yn cael eu cwmpasu gan gamerâu statig traddodiadol. Byddai angen i unrhyw ateb yn y dyfodol ar gyfer teledu cylch cyfyng gynnwys cymysgedd o gamerâu sefydlog a symudol.
- Ynghylch ymholiad Ms Smith (Cynrychiolydd Tenantiaid) ynglŷn â'r cynllunio a'r gwaith arfaethedig yng Nghlinig Colcot, a'r goblygiadau ar gyfer mynediad o'r brif ffordd i'r ganolfan gymunedol gyfagos (ac ar barcio gerllaw), dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu na fyddai'r cynlluniau i ddymchwel y clinig yn effeithio ar barcio cyfagos nac ar fynediad, ac y byddai'n darparu ar gyfer anghenion y gymuned leol.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

464 GWASANAETH TROSEDDU IEUENCTID - ADRODDIAD PERFFORMIAD 12 MIS AR GYFER Y CYFNOD EBRILL 2020 I FAWRTH 2021 (CGC) –

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Troseddau Ieuencid (GTI) adroddiad a oedd yn manylu ar adroddiad perfformiad 12 mis y GTI ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021. Pwyntiau allweddol yr adroddiad oedd:

- Fel rhan o delerau ac amodau y cyllid grant, roedd yn rhaid i'r GTI, yn unol â gofynion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI), ymgymryd ag adroddiadau perfformiad mewn perthynas â nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol;
- Roedd yn bwysig nodi nad oedd dau o'r dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol, Lleihau Nifer y Newydd-ddyfodiaid a Lleihau Aildroseddu, yn gallu cael eu diweddarau ar hyn o bryd oherwydd diffyg argaeledd data perfformiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. At hynny, cafodd y data perfformiad ei echdynnu drwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (CCH) felly ni allai'r Cyngor ddilysu'r data ac felly roedd yn dibynnu ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i'w ddilysu;
- Roedd data perfformiad ar gyfer Newydd-ddyfodiaid i'r system Cyfiawnder Ieuencid (WYJI 1) am y 12 mis rhwng Ionawr a Rhagfyr 2019 ac felly roedd 'oedi' yn y data a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Roedd perfformiad yn adlewyrchu gostyngiad o 12.5% o gymharu'r ffigurau ag Ionawr – Rhagfyr 2018. Roedd y gostyngiad hwn yn cyfateb i 3 phlentyn, gyda ffigurau ar gyfer 2019 yn dangos bod 25 o blant yn y garfan o'i gymharu â 28 yn 2018. Ar y cyfan, roedd perfformiad yn edrych yn gadarnhaol. Wrth gymharu'r perfformiad hwn ar draws meysydd eraill, bu gostyngiad o 4% ar draws De Cymru; gostyngiad o 1.7% ledled Cymru a gostyngiad o 27.7% ar draws y teulu TTI (Timau Troseddau Ieuencid), a oedd yn cynnwys Cymru a Lloegr. Er y bu gostyngiad, roedd y gyfradd fesul 100,000 yn y Fro yn uwch na chyfartaleddau Cymru a theuluoedd, a oedd o ganlyniad i nifer fach y boblogaeth pobl ifanc 10–17 oed ym Mro Morgannwg lle gall cynnydd neu ostyngiad yn y niferoedd gael effaith fawr ar y gyfradd fesul 100,000. Roedd hefyd yn bwysig nodi bod Cymru a Lloegr ar wahanol gamau o ran cyflwyno'r agenda atal gysylltiedig;
- Yn yr un modd, bu gostyngiad sylweddol yn y dangosyddion perfformiad o ran cyfradd aildroseddu (o 27 o garfan o 59; i 21 o garfan o 51) a chyfradd amllder aildroseddu (nifer yr aildroseddu a gyflawnwyd gan blant / pobl ifanc; gostyngiad o 135 i 53) wrth gymharu cyfraddau mis Ebrill i fis Mawrth 2017/18 yn erbyn mis Ebrill i fis Mawrth 2018/19. Unwaith eto, roedd yr 'oedi' wrth ddarparu'r data hwn yn ganlyniad i'r angen i ganiatáu cyfnod olrhain o 12 mis a chyfnod o chwe mis i unrhyw droseddau fynd drwy'r llysoedd;
- Oherwydd yr 'oedi' uchod wrth gasglu data, defnyddiwyd dangosyddion perfformiad lleol i fonitro carfan a nodwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2020, ac yna'i holrhain dros gyfnod o 12 mis tan 1 Ebrill 2021, gyda 6 o'r 23 o bobl ifanc a oedd yn cael eu holrhain yn aildroseddu yn y 12 mis gan gyflawni cyfanswm o 13 o droseddau. Roedd hyn yn cyfateb i ganran aildroseddu o

26%, (cyfradd BCI o 41.2%) gyda 2.16 achos o aildroseddu fesul ail-droseddwr;

- Dangosodd yr adroddiad hefyd yr ystod o ymyriadau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid a'i bartneriaid i geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu;
- Canlyniad cadarnhaol arall oedd y dangosydd lleihau'r defnydd o'r ddalfa (WYJI 3), lle yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, nid oedd unrhyw blentyn wedi'i roi yn y ddalfa;
- O ran y dangosydd ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (WYJI 4), yn ystod y cyfnod o fis Ebrill i fis Mawrth 2020/21; cynigiwyd 13.8 awr ar gyfartaledd i blant / pobl ifanc o oedran ysgol statudol ar ddechrau eu hymyriad, 8.8 awr yn ystod y cam adolygu a daeth i ben ar 7.5 awr. Roedd yr oriau cyfartalog a fynychwyd gan blant / pobl ifanc mewn gwirionedd yn llai, 11.3 awr ar y dechrau ac 1.3 ar y diwedd. Roedd yr oriau a gynigiwyd ac a fynychwyd yn is na'r 25 awr a argymhellir i blant o oedran ysgol statudol. Er ei bod yn werth nodi bod hyn yn ystod y pandemig gyda'r addysg yn cael ei darparu ar-lein yn bennaf.
- Fodd bynnag, roedd darlun llawer mwy cadarnhaol gyda phobl ifanc dros oedran ysgol statudol lle'r oedd yr oriau cyfartalog a fynychwyd ar y dechrau yn 5.3, yn 7.1 yn ystod y cam adolygu a 13.8 ar y diwedd, gyda nifer yr oriau a fynychwyd yn nes at yr 16 awr o ddarpariaeth a argymhellir. Roedd tystiolaeth hefyd bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i gyrsiau hyfforddi ac yn cael eu cefnogi gan Gyrfa Cymru ac Inspire to Work.
- Mynediad i lety addas (WYJI 5): dros y cyfnod rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2021, o'r 15 o blant / pobl ifanc a gafodd gosb gaeedig yn y gymuned; roedd 14 mewn llety addas (dim plant / pobl ifanc yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn ystod y cyfnod);
- Perfformiad o ran mynediad at gymorth priodol ar gyfer anawsterau camddefnyddio sylweddau (WYJI 6): parhaodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y cyfeiriwyd atynt i gymryd rhan mewn asesiadau a thriniaeth, gan nodi bod angen asesu 15 o blant / pobl ifanc, ac roedd 7 ohonynt eisoes yn defnyddio gwasanaethau. Atgyfeiriwyd 8 o blant / pobl ifanc ac aseswyd 4 o fewn 5 diwrnod gwaith. Yn dilyn hynny, o'r 7 asesiad a gwblhawyd, nodwyd bod angen triniaeth haen 2 ar 6, ac roedd angen haen 3 ar 1, a dechreuodd y cyfan o fewn 10 diwrnod gwaith i'r asesiadau (y cyfnod targed);
- Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (WYJI 7): Nodwyd bod angen asesiad iechyd meddwl ar 5 o blant / pobl ifanc. Roedd pob un o'r 5 eisoes yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl;
- O ran y dangosydd perfformiad lleol ar fynediad i Gyfiawnder Adferol (ymgysylltu â dioddefwyr), caewyd 94 o ymyriadau yn 2020/21, o fewn y cyfnod adrodd. Nodwyd 74 o ddiodefwyr, gan gynnig cyfiawnder adferol i 70 ohonynt, ond gwnaed iawn i 3 diodefwyr yn unig yn uniongyrchol ac 8 diodefwyr yn anuniongyrchol. Roedd gostyngiad amlwg mewn ymgysylltu â diodefwyr, y gellid ei briodoli i bryderon gan ddiodefwyr ynghylch cyswllt wyneb yn wyneb a chyswllt arall yn ystod y pandemig parhaus. Byddai'r GTI yn adolygu'r Dangosydd Cyfiawnder Adferol Lleol a'r Cod Ymarfer Dioddefwyr newydd mewn perthynas ag ymgysylltu â diodefwyr i weld a oedd hyn yn cael ei fesur yn briodol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- Holodd y Cynghorydd Brooks ynglŷn â pha mor 'hen' oedd rhywfaint o'r data a ddarparwyd ac os oedd unrhyw beth y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod data mwy diweddar ar gael er mwyn mesur y sefyllfa a'r tueddiadau presennol yn well, er enghraifft, amlygodd adroddiad yn ddiweddar gynnydd mewn trais domestig yn ymwneud â phobl ifanc na fyddai'r data hwn yn ymdrin ag e a hefyd ni fyddai'n ystyried effaith yr oedi ar y llysoedd yn sgil y pandemig. Atebodd Rheolwr y GTI fod casglu data yn heriol, oherwydd yn unol ag amodau grant y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, bu'n rhaid i'r GTI ddarparu gwybodaeth am berfformiad dan eu gofynion cofnodi data, a oedd yn golygu monitro troseddwyr ifanc dros gyfnod o 18 mis. Oherwydd hyn, roedd dangosyddion perfformiad lleol wedi'u datblygu, ond ni ellid eu cymharu'n hawdd â dangosyddion perfformiad eraill o fewn y teulu TTI. Roedd yr 'oedi' 18 mis wrth ddarparu data yn her, gan fod hyn yn cyfyngu ar y faint y gellid ei wneud i ddelio ag unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac ati. O ran y llysoedd ieuencid, roedd yr oedi a achoswyd gan y pandemig bellach wedi mynd. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu y byddai adroddiad, gan gynnwys gwybodaeth am gam-drin domestig yn y cartref sy'n cynnwys plant, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor craffu.
- Gofynnodd y Cynghorydd Aviet beth oedd cyfiawnder adferol / gwneud iawn yn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei olygu ac am unrhyw enghreifftiau o'r rhain. Esboniodd Rheolwr y GTI:
 - Mae cyfiawnder adferol uniongyrchol yn golygu bod y dioddefwr a'r troseddwr yn cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod y drosedd a sut y gellid trwsio'r niwed a achoswyd;
 - Mae cyfiawnder adferol anuniongyrchol yn golygu bod y dioddefwr yn rhoi ei farn ac nid oedd yn bresennol yn uniongyrchol.
 - Byddai gwneud iawn yn uniongyrchol yn golygu bod y troseddwr yn ymgymryd â rhywbeth yr oedd y dioddefwr wedi gofyn amdano'n uniongyrchol (yn amodol ar asesiad risg y GTI); a
 - Byddai gwneud iawn yn anuniongyrchol yn cynnwys gwaith a wneir o fewn y gymuned, er enghraifft, glanhau graffiti.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch a oedd unrhyw un o garfan y GTI yn yr ysgol brif ffrwd ai peidio, a oeddent yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a / neu'r cwricwlwm cenedlaethol (galwedigaethol neu fel arall), yng ngoleuni'r ffigurau sy'n nodi 'gostyngiad' mewn ymgysylltiad y garfan ag addysg, eglurodd Rheolwr y GTI y byddai'r plant hynny dan 16 oed mewn rhyw fath o ddarpariaeth ysgol ac yn gweithio dan y cwricwlwm cenedlaethol (gyda chymysgedd o hyfforddiant galwedigaethol os oes angen). Byddai'r garfan ôl-16 yn ymwneud â Gyrfa Cymru ac Inspire a Chymunedau am Waith, a ddarparodd gyrsiau galwedigaethol megis iechyd a diogelwch ac adeiladu, ac roedd rhai o garfan flaenorol y GTI wedi mynd ymlaen i gael gwaith fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Gellid egluro'r 'gostyngiad' mewn dysgu yn rhannol oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, ac mae'r GTI yn gweithio gyda Dysgu a Sgiliau er mwyn unioni hyn.
- Yn dilyn ymholiad y Cadeirydd ar gyfiawnder adferol a beth oedd y lefelau cyn y pandemig, eglurodd Rheolwr y GTI fod y Fro yn cael ei hystyried yn 'GTI Adferol', gyda lefelau cyn y pandemig o ymgysylltu adferol a chyfiawnder yn

No.

40%, a oedd tipyn yn fwy na chyfartaledd y BCI o 25%. Y gobaiith oedd, wrth i'r pandemig leddfu, y gellid cyflawni'r lefelau hyn eto drwy adfer cyfarfodydd 'panel' wyneb yn wyneb rhwng dioddefwyr a throseddwr.

- Ymatebodd Rheolwr y GTI i ymholiadau'r Cynghorydd Nugent-Finn fel a ganlyn:
 - O ran nifer y plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar gynllun addysg alwedigaethol / prentis iau, a oedd gynt yn ymwneud â'r GTI, nid oedd gan Reolwr y GTI y wybodaeth honno wrth law a byddai'n dod o hyd i'r ateb;
 - O ran nifer y plant o'r GTI sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, sy'n ymddangos yn isel, esboniwyd nad hon oedd y garfan lawn dan y system cyfiawnder ieuenctid ond yn hytrach dan achosion statudol y GTI; byddai angen i Reolwr y GTI edrych ar faint carfan y GTI a chadarnhau'r gyfran;
 - O ran olrhain dangosyddion perfformiad, fel y nodwyd eisoes, roedd heriau a chyfyngiadau o ran dangosyddion gorfodol y BCI a'u cymheiriaid perfformiad lleol; ysgogodd hyn y Cynghorydd i awgrymu symud oddi wrth ddangosyddion o'r fath a chanolbwyntio yn hytrach ar ganlyniadau;
 - Ynghylch y cynnydd mewn trais yn y cartref sy'n cynnwys pobl ifanc, a yw hyn yn cael ei fonitro ac a oes gan yr Awdurdod Lleol / y GTI strategaeth ynghylch mynd i'r afael ag ef, esboniwyd bod rhai ymarferwyr y GTI wedi ymgymryd â hyfforddiant 'parch' a gallai'r GTI gyfeirio at sefydliadau hyfforddi arbenigol i ddarparu hyfforddiant o'r fath hefyd, er mai ychydig iawn o sefydliadau o'r fath oedd mewn nifer. Roedd y GTI hefyd yn gweithio gyda Sefydliadau'r Trydydd Sector, er bod angen atal ac ymyrryd yn fwy ac yn gynharach yn ddelfrydol.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch a oedd staff mewnol o hyd yn y GTI a allai gefnogi rhieni sy'n cael problemau gyda'u plant, cadarnhawyd bod gan y GTI Swyddog Cymorth i Deuluoedd a allai gynnig cymorth i rieni y mae eu plant wedi'u cyfeirio at y GTI ac roedd gan y Cyngor Wasanaeth Rhianta ehangach hefyd.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

465 GWASANAETH TROSEDDU IEUENCTID – CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID DIWEDDARWYD GORFFENAF 2021 (CGC) –

Amlinellodd Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) yr adroddiad, a'i ddiben oedd tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu at Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2021 - 2023 a oedd yn ymgorffori'r gwelliannau gofynnol yn dilyn archwiliad sylfaenol Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at:

- Sut yr oedd y GTI, a ddynodwyd yn wasanaeth cyhoeddus allweddol, yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaethau wrth i'r Cyngor adfer o'r pandemig;
- Yn 2020, roedd rhaid i'r GTI gynhyrchu Cynllun Pontio ac Adfer yn hytrach na Chynllun Cyfiawnder leuenctid o ganlyniad i effaith y pandemig. Cyflwynwyd y Cynllun hwn i'r Pwyllgor Craffu ar 11 Tachwedd 2020;
- Ym mis Mawrth 2021, dyfarnodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid (BCI) gyllid i'r GTI a dywedodd fod disgwyliad arnynt unwaith eto i lunio Cynllun Cyfiawnder leuenctid ar gyfer 2021/22 yn unol â'r Cynlluniau Cyfiawnder leuenctid, Canllawiau Ymarfer y BCI Mawrth 2021. Roedd y canllawiau'n awgrymu y dylai'r Cynllun gynnwys meysydd fel cyflwyniad, gweledigaeth a strategaeth, trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a phartneriaeth, sut i ymateb i'r pandemig a galluogi adferiad ohono ac amlinellu cynllun busnes a gwella gwasanaethau;
- Roedd y Cynllun yn ymgorffori'r elfennau allweddol canlynol:
 - y gwelliannau gofynnol yn dilyn archwiliad llinell sylfaen Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder leuenctid;
 - argymhellion o ymarfer Meincnodi Arolygu GTI Caerdydd;
 - camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Pontio ac Adfer y GTI 2020; ac
 - argymhellion gan ddau adroddiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.
- Pennwyd y Cynllun dros dair blynedd er mwyn caniatáu digon o amser i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.
- Roedd yn rhaid i'r Cynllun hefyd ddangos sut y byddai'r GTI yn sicrhau gwerth am arian, sut yr oedd grant y BCI yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau Cyfiawnder leuenctid yn ogystal â darparu gwybodaeth am berfformiad;
- Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y Cynllun Cyfiawnder leuenctid. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth wedi cael problemau gyda chapasiti drwy gydol 2020/21 a oedd wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i ddatblygu ystod o gamau gweithredu o'r Cynllun Cyfiawnder leuenctid (megis absenoldebau staff a swyddi gwag eraill yn codi o fewn y tîm). Roedd Rheolwr y GTI hefyd yn ymddeol ar ddiwedd mis Hydref 2021.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD – DYLID nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

466 STRATEGAETH ATAL DIGARTREFEDD 2018 – 2022 – ADRODDIAD
MONITRO (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a
amlinellodd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Strategaeth Atal Digartrefedd a'r Cynllun Gweithredu. Roedd hyn o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a osododd ofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd, a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2019, ar gyfer y cyfnod 2018-2022;
- Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y pwysau parhaus sylweddol ar y Gwasanaeth Atebion Tai a'r gwasanaethau cymorth a oedd yn deillio o'r pandemig a'r camau ychwanegol / adfer a gymerwyd;
- Roedd pedair thema allweddol i'r Cynllun Gweithredu a oedd yn cefnogi'r Strategaeth ac atal digartrefedd ar y cyfle cyntaf:
 - Darparu gwasanaeth atal digartrefedd cadarn wedi'i dargedu;
 - Datblygu ac ehangu argaeledd cyngor a chymorth cynnar mewn perthynas â thai;
 - Cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed i gynnal a chadw cartref ac i integreiddio i'r gymuned; a
 - Chefnogi landlordiaid preifat i wella cynaliadwyedd tenantiaethau.
- Roedd atal digartrefedd yn gyffredinol yn parhau i fod yn her; yn enwedig yng ngoleuni'r holl achosion o'r fath sydd bellach yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel;
- Er gwaethaf yr heriau o'r pandemig, parhawyd i wneud cynnydd, fel y dangosir yn y Cynllun Gweithredu, ac ar wahân i dri o'r camau gweithredu, roedd y gweddill ar y trywydd iawn i'w cwblhau. Y tri cham gweithredu yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig oedd:
 - A003 – gweithdrefn rhyddhau cleifion o'r ysbyty: effeithiwyd ar hyn gan broblemau adnoddau oherwydd y pandemig;
 - A005 – cyfleoedd cysgodi staff: mae cyfleoedd wedi'u cyfyngu oherwydd bod angen i staff weithio gartref mewn ymateb i Covid-19; a
 - A010 – darparu hyfforddiant parod ar gyfer tenantiaeth o fewn y system Carchardai: roedd y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda LIC er mwyn treialu gyda Chyngor Caerdydd y gwaith o ddarparu hyfforddiant parod ar gyfer tenantiaeth er mwyn helpu'r rhai sy'n gadael y carchar i gynnal eu tenantiaethau. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder yn y cyfamser wedi ymgymryd â'u gweithgarwch cynaliadwyedd tenantiaeth eu hunain ac felly roedd am osgoi dyblygu ymdrechion. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei fonitro er mwyn gwirio bod y gweithgaredd yn helpu a byddai'r Cyngor yn ailedrych ar hyn pe na bai'n gwneud hynny.
- Ers mis Mawrth 2020, derbyniodd Atebion Tai dros 5,000 o ymholiadau digartrefedd, gyda dros 1,000 o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro. Ar yr adeg honno roedd gan Fro Morgannwg dros 100 o aelwydydd mewn unedau gwely a brecwast mewn gwestai ac roedd 127 mewn mathau eraill o lety dros dro. Roedd dros hanner y garfan hon yn bobl sengl, dan 35 oed. Roedd llety camu ymlaen ar gyfer grwpiau o'r fath yn brin iawn o fewn y Fro;

- Er mwyn ehangu'r cyflenwad o dai o fewn y sector rhentu preifat, roedd arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol a menter hyrwyddo yn cael eu hyrwyddo er mwyn deall anghenion, dymuniadau a dyheadau landlordiaid preifat er mwyn eu hannog i gynorthwyo drwy gyflenwi tai. Roedd ffactor dylanwadol allweddol ar landlordiaid y sector preifat, achosion cymryd meddiant yn y Llys, yn parhau i fynd rhagddynt gan flaenoriaethu achosion difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig. Erbyn hyn, roedd yn ofynnol i bob landlord roi chwe mis o gyfnod rhybudd er mwyn terfynu tenantiaethau gyda'r newid deddfwriaethol hwn yn cael ei ymestyn i Wanwyn 2022;
- Nid oedd y cynllun benthyciad blaenorol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio'n eang gan breswylwyr ac wedi hynny fe'i disodlwyd gan gynllun grantiau sy'n caniatáu i bobl mewn gwaith yn unig wneud cais i Awdurdodau Lleol am gymorth ariannol gydag ôl-ddyledion rhent. Roedd y meini prawf llym a chyfyngedig ar gyfer y grant hwn yn golygu na wnaed unrhyw hawliadau cymwys ac felly'r cynllun Taliad Budd-dal Tai yn ôl Disgresiwn oedd y prif lwybr a'r llwybr gorau ar gyfer cymorth ariannol i'r rhai oedd yn rhentu ac nid mewn cyflogaeth;
- Her ychwanegol oedd bod rhai landlordiaid preifat yn mynnu bod rhent chwe mis yn cael ei dalu ymlaen llaw ac roedd nifer gynyddol o landlordiaid hefyd yn mynnu sicrhau gwarantwyr, hyd yn oed ar gyfer yr achosion hynny oedd yn cael eu cefnogi dan Gynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro. Credid bod hyn yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn cyfnod rhybudd;
- Roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor wedi hen arfer ar glywed materion yn ymwneud â darpariaeth tai a digartrefedd ac mae'n debyg y byddai'n ystyried gwneud argymhellion i'r Pwyllgor a'r Cabinet yn y dyfodol agos ynghylch dyrannu a darparu tai ac atal digartrefedd;
- Byddai system TG newydd yn cael ei chaffael ar gyfer y Gwasanaeth Tai er mwyn helpu i ymateb i breswylwyr a thenantiaid;
- Parhaodd y cyfarfodydd celloedd cydlyn amlasiantaethol i weithredu, a oedd yn cefnogi tenantiaid mewn llety dros dro;
- Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau grant cymorth tai bellach wedi'u hailgomisiynu a byddai nifer o brosiectau newydd yn mynd ar-lein fel llety â chymorth i bobl ag anghenion cymhleth;
- Parhaodd y Tîm Atebion Tai i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'u cymheiriaid yn y sector preifat er mwyn datblygu llety amgen i bobl sengl gyda chymorth y Grant Cymorth Tai.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, cafodd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol eu codi gan y Pwyllgor, a'u hateb gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch yr hyfforddiant parod ar gyfer tenantiaeth a'r posibilrwydd y byddai Swyddogion Tai yn mynd i gwrdd â'r rhai sy'n gadael carchardai a thenantiaid yn y dyfodol cyn iddynt ddod i'r Fro, yr ateb oedd mai dyma oedd nod gwreiddiol y gwasanaeth fel y rhagwelwyd gan Gyngor Bro Morgannwg mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, ond roedd oedi i'r cynllun peilot oherwydd y pandemig a chan fod y Gwasanaeth Cyfiawnder wedi ymgymryd â'i fersiwn ei hun o'r gwasanaeth hwn, gan ddisodli cynllun y Cyngor. Fodd bynnag, parhaodd y Cyngor i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a Charchardai ynghylch anghenion y rhai sy'n gadael y carchar, megis risg, mynediad at wasanaethau, asesiadau o'u hanghenion a

chymorth (iechyd meddwl a dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol) ac felly gallai'r posibilrwydd y bydd Swyddogion Tai yn delio â'r rhai sy'n gadael carchar yn uniongyrchol ynghylch tenantiaeth a materion eraill, gael ei ailystyried yn y dyfodol.

- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd ar asesu risg a chefnogaeth y rhai sy'n gadael carchar sy'n symud i'r gymuned leol ac yn enwedig i mewn i dai amlfeddiannaeth, roedd y rhai oedd yn gadael carchar yn cael eu hasesu gan y gwasanaethau Carchardai neu Brawf cyn iddynt fynd allan i'r gymuned er mwyn amlygu unrhyw faterion neu anghenion, a byddai'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn asesu pa mor addas yw'r llety sy'n cael ei gynnig. Ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, byddai'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael carchar yn cael eu hystyried yn risg isel; byddai unrhyw faterion neu ymddygiad annerbyniol a godir yn cael eu trin â'r Cyngor ar y cyd â landlordiaid ac, os oes angen, bydd y tenant dan sylw yn cael ei symud neu ei droi allan. Cynhaliodd y Cyngor ei asesiadau risg ei hun er mwyn sicrhau diogelwch staff y Cyngor a'r Trydydd Sector sy'n cefnogi tenantiaid hefyd.
- O ran pryder y Cynghorydd Brooks ynghylch yr 'oedi' cynyddol o ran ehangu tai cymdeithasol, roedd y Cyngor eisoes wedi ymgynghori â chymunedau lleol ynghylch datblygu tai cymdeithasol yn eu hardaloedd, megis yn Court Road lle'r oedd Swyddogion wedi siarad yn uniongyrchol â thrigolion lleol am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Roedd hyn yn llwyddiant ac wedi gwrthweithio yn erbyn natur 'begynedig' y drafodaeth a'r ddadl ar y cyfryngau cymdeithasol yn aml. Nid oedd creu mwy o dai cymdeithasol yn y Fro erioed wedi bod yn bwysicach, gan fod 6,000 o drigolion lleol yn chwilio am lety ar hyn o bryd. Roedd y Cyngor am gyfleu neges gadarnhaol a herio camsyniadau ar y tai cymdeithasol sy'n cael eu hadeiladu, a oedd yn gyffredinol yn fwy effeithlon o ran ynni, ac o ansawdd adeiladu uwch o'i gymharu â'r sector preifat, ynghyd â darparu cyllid, cefnogi trigolion lleol i gael gafael ar dai lleol a chymorth a hyfforddiant arall er mwyn cynnal tenantiaethau, yn ogystal â gweithredu pan fo angen pe bai'r tenantiaethau hyn yn methu.
- O ran ymholiad dilynol y Cynghorydd ar gefnogi tenantiaethau yng ngoleuni dileu'r cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol a chyda lefelau cynyddol o dlodi tanwydd, roedd y Cyngor yn draddodiadol o'r farn na fyddai unrhyw denant, a oedd wedi bod yn destun newid neu doriad i'w budd-daliadau o ganlyniad uniongyrchol i newidiadau i'r Diwygio Lles, yn cael ei droi allan. Roedd y Cyngor hefyd wedi llwyddo i ddelio ag ôl-ddyledion rhent, ac ychydig o eiddo gafodd eu dadfeddiannu yn gyffredinol yn y Fro. At hynny, rhoddodd y Cyngor gymorth i denantiaid drwy ei Wasanaeth Cynghori Ariannol a thimau eraill.
- Yn dilyn ymholiad y Cynghorydd Nugent-Finn ar wasanaethau penodol i gyn-filwyr ynghylch tai / tenantiaethau, cadarnhawyd bod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor (ar y cyd â Swyddog Cyswilt y Lluoedd) ddarparu a blaenoriaethu cyn-filwyr mewn perthynas â gwahanol wasanaethau cymorth tai / dyrannu ac i 'gyfeirio' cyn-filwyr at feysydd eraill o gymorth a chefnogaeth. Serch hynny, roedd hyn yn heriol yng ngoleuni'r gofynion presennol oedd ar dai, ond parhaodd y Cyngor i weithio gyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau a chymorth mwy pwrpasol i gyn-filwyr.

No.

- O ran cwestiynau dilynol y Cyngorydd ynghylch ailsefydlu ffoaduriaid Affganistan a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a blaenoriaethu tai i bobl sengl, roedd yr atebion fel a ganlyn:
 - O ran ailsefydlu dinasyddion Affganistan, y cynnig gan y Cyngor oedd i ddau deulu o Affganistan gael eu hailgartrefu yn yr ardal, gydag un uned lety eisoes ar gael ac un arall i fod ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddai'r gweithgor perthnasol, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, yn nodi teuluoedd addas ar gyfer y llety hwn, gydag un teulu eisoes wedi'i nodi. Bwriad y Cyngor oedd cartrefu dau deulu o Affganistan erbyn Nadolig 2021. O ran ailsefydlu ffoaduriaid eraill o Affganistan, roedd y Cyngor yn gweithio gyda'r sector rhentu preifat er mwyn darparu llety o'r fath.
 - O ran prinder tai sengl / un ystafell wely a'r CDLI, byddai'r tai sengl a ddarperir yn y Fro yn gymysgedd o dai preifat a chymdeithasol, ond o safbwynt y Cyngor roedd adeiladu llety un ystafell wely yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar y cyd â phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, megis y datblygiad sy'n mynd rhagddo yn Heol yr Isffordd, y Barri. O ran datblygiadau tai cymysg, roedd y Cyngor yn gofyn i ganran benodol o'r tai fod yn llety un ystafell wely. Fodd bynnag, ni ellid gwireddu'r targedau adeiladu dan y CDLI yn llawn, ac felly roedd yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn fwy na dim ac yn ganllaw defnyddiol wrth ddeall lle mae'r blaenoriaethau ar gyfer tai.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Atal Digartrefedd Nodi'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

(2) BOD y camau ychwanegol a gynhwyswyd a'r pwysau sylweddol ar y dylid nodi gwasanaeth, ei staff a'i adnoddau o ganlyniad i'r pandemig COVID.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

467 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 2IL CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd a wnaed o ran argymhellion blaenorol y Pwyllgor Craffu ac amserlen newydd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried.

Yn ogystal, roedd modd i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu roi diweddariadau pellach ar yr argymhellion canlynol nas nodwyd yn yr adroddiad:

No.

- O ran yr argymhelliad o gyfarfod Pwyllgor Craffu fis Ebrill ynghylch y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wasanaeth DAARC (Cydlynnydd Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig), roedd mwy o ymgysylltu â grwpiau cyfoedion / cymorth wedi cael ei drafod dros dro gyda'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig a Rhywiol a'r Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol o'r Tîm Diogelwch Cymunedol ac roedd hwn yn faes y byddai'r gwasanaeth yn parhau i'w gefnogi a'i ddatblygu;
- Ynghylch yr argymhelliad parhaus (yn wreiddiol o gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019) ar nodi atebion tai priodol i'r gymuned Teithwyr, parhaodd swyddogion o fewn y Gwasanaethau Cynllunio ac Eiddo i geisio dod o hyd i dir / safleoedd amgen gyda'r gwaith cysylltiedig ar opsiynau, dichonoldeb neu arfarniadau wedi'u gohirio oherwydd pwysau tai sy'n deillio o'r pandemig, ond byddai gwaith yn mynd rhagddo ar hyn yn y dyfodol. Roedd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gynnal Asesiad Sipsiwn / Teithwyr newydd ar gyfer LIC erbyn mis Chwefror 2022, yr arolwg hwn i'w gynnal gan ymgynghorwyr ar y cyd â'r grŵp llywio mewnol perthnasol a rhanddeiliaid (fel yr Heddlu, gwasanaethau Cymuned ac Addysg Sipsiwn a Theithwyr) yn ogystal â gydag Aelodau Etholedig (i ymgynghori â hwy'n unigol ac ar y cyd).

Ar ôl ystyried yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C yr adroddiad.
- (2) BOD bod Amserlen Rhaglen Waith Ymlaen y Pwyllgor wedi'i diweddarau sydd ynghlwm yn Atodiad D yn cael ei chymeradwyo a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) I'w ystyried a gwybodaeth.